# CHAPTER

# CYNORTHWYYDD CODI ARIAN

## Disgrifiad swydd

| | |
|---|---|
| Contract: | Parhaol, rhan amser (lyn amodol ar gyfnod prawf 3 mis) |
| Yn atebol i: | Pennaeth Codi Arian |
| Yn gyfrifol am: | Neb yn adrodd yn uniongyrchol |
| Adran: | Codi Arian |
| Cyflog: | £27,248 pro rata (£16,348.80 am 24 awr) |
| Oriau: | 24 awr yr wythnos (TOIL) gan gynnwys egwyl cinio o awr â thâl. Bydd rhywfaint o waith ar y penwythnosau a gyda'r nosy n angenrheidiol. |
| Lleoliad: | Byddwch wedi'ch lleoli yn Chapter, Caerdydd, ond rydyn ni'n cynnig model hybrid sy'n golygu y gallwch weithio gartref hefyd, lle bo'n bosib. |

## DIBEN Y SWYDD

Prif ddiben y swydd yw cefnogi'r Pennaeth Codi Arian ym mhob agwedd ar waith codi arian strategol Chapter er mwyn cyflawni targedau incwm blynyddol ar gyfer y sefydliad.

Byddwch yn gweithio ar draws ymchwilio a rhagamcanu, trin, stiwardiaeth, datblygu cynigion, adrodd a rheoli data i gynhyrchu incwm ar draws ymddiriedolaethau a sefydliadau, ffynonellau statudol, unigolion a phartneriaethau busnes.

Byddwch yn rheoli ein cynlluniau aelodaeth gan sicrhau bod y perthnasau hynny'n cael eu meithrin i gynyddu buddsoddiad rhanddeiliaid yn y sefydliad, ein hethos cymunedol a'n huchelgais o ran y rhaglen.

Bydd gofyn i chi hefyd sefydlu systemau cywir i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cynnal, a bod yr holl waith yn cael ei fonitro a'i werthuso yn y ffordd fwyaf effeithlon, a chi fydd yn gyfrifol am baratoi adroddiadau ar gyfer dyfrniadau llwyddiannus yn unol ag amserlenni y cytunir arnynt.




Rosa-Johan Uddoh: Ye Olde Group Chat, 2023
Llun gan Simon Ayre

## YNGLŶN Â CHAPTER

Canolfan ryngwladol ar gyfer diwylliant a chelfyddydau cyfoes yw Chapter, sydd â'i gwreiddiau yng nghanol Caerdydd. Cafodd ei sefydlu gan artistiaid yn 1971 i ddathlu arbrofi a meddwl radical, ac rydyn ni wedi bod yn sbardun ar gyfer creadigrwydd a meddwl beirniadol byth ers hynny.

Rydyn ni'n comisiynu ac yn cyflwyno arddangosfeydd, ffilmiau, perfformiadau a digwyddiadau amlddisgyblaethol sy'n ysgogi'r meddwl gan artistiaid cyfoes newydd a sefydledig sy'n ehangu ein bydolwg ac yn herio'r status quo. Gan groesawu safbwyntiau niferus ac amrywiol, cymryd risgiau ac arbrofi, mae ein rhaglen yn annog sgyrsiau sy'n croesi ffiniau a disgyblaethau.

Mae'r artistiaid rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn mynd ati i ystyried materion a chwestiynau hanfodol sy'n siapio ein presennol, ac rydyn ni'n meithrin deialog rhwng cynulleidfaoedd ac artistiaid drwy raglen gyhoeddus sy'n cynnig cyfleoedd i gysylltu drwy ein hanes, y ffordd rydyn ni'n byw nawr, a sut gallen ni ddychmygu dyfodol newydd.

Mae artistiaid a chynulleidfaoedd wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud, ac ochr yn ochr â'n rhaglen gelfyddydau gyhoeddus yn ein horiel, ein theatrau a'n sinemâu, rydyn ni hefyd yn gartref creadigol i 53 o artistiaid a sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn ein stiwdios, yn cynnig gofodau i ystod o ddosbarthiadau wythnosol a misol, ac yn cynnal caffi bar prysur sy'n lle gwych i gwrdd a gweithio. Mae ein rôl fel canolbwynt cymunedol mor bwysig i ni â'n rhaglen o safon fyd-eang.

Rydyn ni'n credu mewn mynediad teg at ddiwylliant a bod gan y celfyddydau y pŵer i'n cysylltu ni i gyd mewn deialog o gwmpas profiadau amrywiol a dyheadau a rennir, i gefnogi iechyd a llesiant, ac i gyfrannu at gymdeithas fwy chwilfrydig a chydlynol.

# MEYSYDD CYFRIFOLDEB A THASGAU ALLWEDDOL

## Meysydd cyfrifoldeb a thasgau allweddol

- Cefnogi'r Pennaeth Codi Arian i ymchwilio i gyfleoedd codi arian, gan gynnwys ymddiriedolaethau a sefydliadau, nawdd corfforaethol a rhoddion unigol.
- Darparu cymorth gweinyddol i'r cynllun aelodaeth, gan gadw golwg ar aelodau newydd ac sy'n gadael, a manteision aelodaeth. Sicrhau bod y holl gyfathrebiadau gydag aelodau yn amserol ac yn gywir ac yn adlewyrchu ethos a llais Chapter.
- Gweithio gyda phob tîm i baratoi ceisiadau drafft i ymddiriedolaethau a sefydliadau ar gyfer prosietau a nodwyd, gan gynnwys cyfalaf.
- Paratoi adroddiadau drafft a monitro ar gyfer arianwyr prosiectau a refeniw o fewn terfynau amser.
- Cefnogi'r Pennaeth Codi Arian a thimau eraill i gynnal digwyddiadau rhanddeiliaid a chodi arian, derbyniadau, a gweithgareddau eraill a nodir.
- Gweithio gyda'r tîm marchnata a chyfathrebu i lunio deunyddiau cyfathrebu a hyrwyddo codi arian priodol.
- Drafftio adroddiadau gwethuso sy'n briodol i unrhyw gyllid.
- Cynnal a datblygu cronfa ddata codi arian yn ol yr angen.

## Cyfle Cyfartal

- Sicrhau bod bwriad a gofynion Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth a Chod Ymddygiad Chapter yn cael eu cymhwyso.

## Amrywiol

- Ymgyfarwyddo a chydymffurfio â'r holl bolisïau, rheoliadau a gweithdrefnau ariannol, gweithredol, iechyd a diogelwch, staff, gofal cwsmeriaid, diogelu data, a chyfle cyfartal perthnasol, gan sicrhau yn benodol gydymffurfiaeth â'r holl rwymedigaethau statudol, yn enwedig o ran deddfau trwyddedu.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chais rhesymol y Cyd-gyfarwyddwyr neu'r Pennaeth Codi Arian.

## Amodau Arbennig

- Mae'n bosib y bydd angen gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau, neu i fwrdd o Chapter mewn digwyddiadau neu gyfarfod eraill.
- Nid yw'r disgrifiad swydd yma'n gynhwysfawr. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fod ag agwedd hyblyg tuag at eu dyletswyddau, gan ei bod yn bosib y bydd angen eu hamrywio (ar ôl trafod â deilliad y swydd) yn amodol ar anghenion y sefydliad, ac yn unol â phroffil cyffredinol y swydd.

# EIN HYMGEISYDD DELFRYDOL

Bydd ein hymgeisydd delfrydol yn unigolyn meddylgar ac uchelgeisiol sy'n awyddus i ddatblygu gyrfa ym maes codi arian. Byddwch yn mwynhau gweithio gyda phobl, a byddwch yn awyddus I gynyddu eich profiad yn y sector codi arian.

Byddwch yn chwilfrydig ac yn angerddol am y celfyddydau ac yn ymroddedig i gefnofi rhaglenni creadigol cydweithredol sy'n agored ac yn hygyrch i bawb.

Byddwch yn drefnus a bydd gennych sgiliau cyfathrebu ardderchog, sylw craff at fanylion, a'r gallu i ymdrin yn ddoeth â sefyllfaoedd sensitif. Byddwch yn hyblyg ac yn gallu gweithio'n unol ag amserlenni tynn, gan aros yn ddigynnwrf a chanolbwyntio dan bwysau. Byddwch yn ffynnu mewn tîm ond bydd modd i chi hefyd weithio ar eich menter eich hunan pan fydd angen.

Rydyn ni'n ganolfan i bawb, ac rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bawb. Rydyn ni'n croesawu yn benodol bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, neu sy'n F/fyddar neu'n anabl, gan eu bod wedi'u tangynrchioli yn ein gweithlu ar hyn o bryd.

# MANYLEB YR UNIGOLYN

Fel Cynorthwyydd Codi Arian bydd angen i chi ddangos y cymwyseddau canlynol. Rydyn ni'n ymwybodol efallai na fydd gennych yr holl sgiliau a'r profiad dymunol, a byddwn ni'n darparu Cymorth a hyfforddiant ar gyfer meysydd lle efallai y bydd angen I chi ddatblygu i mewn i'r swydd.

## Hanfodol

- Profiad o godi arian a dealltwriaeth o arferion gorau codi arian
- Sgiliau trefnu da a sylw craff i fanylion
- Gallu gweithio i derfynau amser gan reoli sawl blaenoriaeth
- Sgiliau Cyfathrebu rhagorol
- Cyfathrebwr sensitive a deinamig, gallu eirioli a dylanwadu
- Trefnus gyda sylw uchel i fanylion
- Llythrennog mewn TG gyda phrofiad o ddefnyddio Word, Excel a chronfeydd data
- Chwaraewr tîm egnïol a chreadigol gyda lefel uchel o frwdfrydedd a'r gallu i fod yn hyblyg ac yn ymatebol.

## Dymunol

- Gallu Cyfathrebu yn Gymraeg
- Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth GDPR
- Profiod o fonitro, gwerthuso ac ysgrifennu adroddiadau
- Sgiliau rhifedd da a dealltwriaeth o sut i gyflwyno cyllidebau'n glir.



The Writer's Circle, Experimentica, 2024
Llun gan Kirsten McTernan

## YNGLŶN Â'R BUDDION

Mae Chapter yn gyflogwr hyblyg a chyfeillgar, ac yn cynnig oriau gweithio hyblyg a gweithio hybrid. Mae'r Manteision i Staff yn cynnwys:

- 5.6 wythnos o wyliau y flwyddyn, gan gynnwys gwyliau banc, pro rata ar gyfer swyddi rhan amser.
- Cynllun pensiwn cyfrannol, a byddwch yn cael eich ymrestru iddo'n awtomatig (yn dibynnu ar amodau'r cynllun). Mae'r cynllun yn eich galluogi i gynilo ar gyfer eich ymddeoliad gan ddefnyddio eich arian eich hunan, ynghyd â rhyddhad treth a chyfraniadau gan y cwmni.
- 20% oddi ar fwyd a diod yn y caffi/bar
- Tâl Mamolaeth a Mabwysiadu uwch ar ôl blwyddyn o wasanaeth (yn dibynnu ar amodau'r cynllun).
- Cynllun Cymraeg Gwaith
- Dau docyn sinema am ddim y mis
- Gostyngiad ar docynnau sinema a theatr
- Mynediad at Raglen Cynorthwyo Gweithwyr
- Te a coffi canmoliaethus
- Cinio am ddim pan fyddwch yn gweithio yn yr adeilad
- Cefnogaeth ar gyfer datblygiad parhaus
- Gofal Llygaid am DSE
- Raciau beic diogel
- Parcio staff
- Digwyddiadau cymdeithasol i'r staff